B8. Sicrhau cydymffurfiad â gofynion cyfreithiol, rheoliadol, moesegol a chymdeithasol

Crynodeb o'r Uned

Beth yw cwmpas yr uned?

Mae'n rhaid i sefydliadau ddangos eu bod yn gweithredu'n gyfrifol mewn perthynas â'u staff, eu cwsmeriaid, eu buddsoddwyr a'r cymunedau y maen nhw'n gweithio ynddyn nhw. Mae'n rhaid i bob math o sefydliad ufuddhau i'r gyfraith mewn meysydd allweddol fel iechyd a diogelwch, cyflogaeth, cyllid a chyfraith cwmnïau. Hefyd, mae'n rhaid i lawer o sefydliadau weithio o fewn rheoliadau penodol ar gyfer eu diwydiant a fframweithiau moesegol. Mae'n rhaid i sefydliadau sydd am gadw enw da hefyd ystyried barn pobl yn eu cymunedau ar amrywiaeth eang o faterion fel yr amgylchedd a ffyrdd eraill y gall y sefydliad effeithio ar ansawdd bywyd pobl.

Ar gyfer pwy mae'r uned?

Argymhellir yr uned ar gyfer rheolwyr canol ac uwch reolwyr.

Cysylltiadau ag unedau eraill

Mae gan yr uned hon gysylltiadau ag unedau eraill yng nghyfres gyffredinol y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer rheolaeth ac arweinyddiaeth lle mae'n bosibl ei bod yn ofynnol cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, rheoliadol, moesegol a chymdeithasol.

Sgiliau

Isod rhestrir y prif 'sgiliau' generig y mae angen eu defnyddio wrth sicrhau cydymffurfiad â gofynion cyfreithiol, rheoliadol, moesegol a chymdeithasol. Mae cynnwys manwl yr uned yn nodi'n benodol/yn awgrymu'r sgiliau hyn, ac maent wedi'u rhestru yma fel gwybodaeth ychwanegol.

- Rheoli gwybodaeth
- Cyfathrebu
- Cynnwys pobl eraill
- Dadansoddi
- Monitro
- Asesu
- Cymell
- Gwneud penderfyniadau
- Adrodd
- Rheoli risg
- Gwerthfawrogi a chefnogi pobl eraill
- Cyflwyno gwybodaeth
- Arweinyddiaeth

© MSC, Mehefin 2004

B8. Sicrhau cydymffurfiad â gofynion cyfreithiol, rheoliadol, moesegol a chymdeithasol

Canlyniadau perfformiad effeithiol

Mae'n rhaid i chi allu gwneud y pethau canlynol:

1. Monitro'r gofynion cyfreithiol, rheoliadol, moesegol a chymdeithasol perthnasol, a'u heffaith ar faes eich cyfrifoldeb, gan gynnwys beth fydd yn digwydd os na fyddwch yn eu bodloni.
2. Datblygu polisïau a gweithdrefnau effeithiol i sicrhau bod eich sefydliad yn bodloni'r holl ofynion angenrheidiol.
3. Sicrhau bod y bobl berthnasol yn deall yn eglur y polisïau a'r gweithdrefnau, a phwysigrwydd eu rhoi ar waith.
4. Monitro'r ffordd y bydd polisïau a gweithdrefnau'n cael eu rhoi ar waith, a darparu cefnogaeth.
5. Annog hinsawdd o ddidwylledd ynglyn â bodloni neu beidio â bodloni'r gofynion.
6. Nodi a chywiro unrhyw fethiannau i fodloni'r gofynion.
7. Nodi rhesymau dros beidio â bodloni gofynion, ac addasu'r polisïau a'r gweithdrefnau er mwyn lleihau'r tebygrwydd o fethiannau yn y dyfodol.
8. Darparu adroddiadau llawn i'r budd-ddeiliaid perthnasol ar unrhyw fethiannau i fodloni'r gofynion.

Ymddygiad wrth wraidd perfformiad effeithiol

1. Byddwch yn adnabod newidiadau mewn amgylchiadau yn ddiymdroi ac yn addasu cynlluniau a gweithgareddau yn unol â hynny.
2. Byddwch yn sicrhau bod amser ar gael i gefnogi eraill.
3. Byddwch yn rhoi adborth i eraill i'w helpu i wella'u perfformiad.
4. Byddwch yn nodi ac yn codi pryderon sy'n ymwneud â moeseg.
5. Byddwch yn effro i risgiau posibl.
6. Byddwch yn sicrhau bod gwybodaeth briodol ar gael yn ddiymdroi i'r rheiny y mae ei hangen arnyn nhw ac sydd â hawl i'w chael.
7. Byddwch yn annog eraill i rannu gwybodaeth o fewn cyfyngiadau cyfrinachedd.
8. Byddwch yn sensitif i anghenion budd-ddeiliaid ac yn rheoli'r rhain yn effeithiol.

© MSC, Mehefin 2004

B8. Sicrhau cydymffurfiad â gofynion cyfreithiol, rheoliadol, moesegol a chymdeithasol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall y pethau canlynol:

Gwybodaeth gyffredinol a dealltwriaeth

1. Pwysigrwydd trin y drefn lywodraethol mewn modd moesegol sy'n ystyried gwerth, a sut i roi hyn ar waith
2. Gofynion cyfreithiol perthnasol sy'n llywodraethu'r modd o redeg sefydliadau
3. Agweddau cymdeithasol cyfredol, a'r rhai sy'n dod i'r amlwg, tuag at reolaeth ac arfer arweinyddiaeth, a phwysigrwydd bod yn sensitif i'r rhain

Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i ddiwydiant/sector

1. Gofynion cyfreithiol, rheoliadol a moesegol yn eich sector
2. Gweithdrefnau i'w dilyn os na fyddwch yn bodloni'r gofynion
3. Pryderon a disgwyliadau cymdeithasol cyfredol penodol, a'r rhai sy'n dod i'r amlwg, sy'n berthnasol i'ch sector
4. Dulliau sefydliadau eraill o ddelio â phryderon a disgwyliadau cymdeithasol cyfredol, a'r rhai sy'n dod i'r amlwg

Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i'r cyd-destun

1. Diwylliant a gwerthoedd eich sefydliad a'u heffaith ar y drefn lywodraethol gorfforaethol
2. Polisïau a gweithdrefnau sy'n sicrhau bod pobl yn bodloni gofynion
3. Y prosesau ar gyfer cynnal y polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol a sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol
4. Y gwahanol ffyrdd y gallai pobl fethu â bodloni'r gofynion, a'r risg y bydd y rhain yn digwydd mewn gwirionedd
5. Y gweithdrefnau ar gyfer delio â phobl nad ydyn nhw'n bodloni'r gofynion, gan gynnwys gofynion ar gyfer hysbysu rhywun am hyn

© MSC, Mehefin 2004